



# Cynllun Rheoli Cynaliadwy – Cefnogi Adfer Natura 2000 Cwestiynau Cyffredin

Mae'r cwestiynau cyffredin yn ategu'r wybodaeth fanwl yn y nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer y cynllun (<https://llyw.cymru/cynllun-rheoli-cynaliadwy-cefnogi-adfer-natura-2000>). Mae hon yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru wrth i gwestiynau newydd godi.

## **C1. Beth yw'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy – cefnogi adfer Natura 200 (CRhC –N2K)?**

- A. Noddir CRhC – N2K gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw buddsoddi cyfalaf ar lefel tirwedd mewn gweithgareddau fydd yn gwella cyflwr safleoedd Natura 2000.

## **C2. Pam ydych chi'n lansio'r cynllun grant hwn nawr a ddim yn gynharach yn y flwyddyn?**

- A. Ein bwriad oedd lansio'r cynllun yn gynharach yn y flwyddyn ond oherwydd argyfwng y Covid, bu'n rhaid gohirio hynny. Gan fod y cyfnod cyflawni felly'n fyrrach na'r bwriad, bydd gofyn i ymgeiswyr fod yn realistig ynghylch yr hyn sy'n bosib ei wneud cyn diwedd y flwyddyn ariannol a faint i wneud cais amdano.

## **C3. Beth ydyn ni'n talu amdano?**

- A. Amcan penodol CRhC – N2K yw cefnogi gweithgarwch fydd yn helpu i gyfoethogi bioamrywiaeth ar draws safleoedd Natura 2000 a'u cyffiniau. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru ar Adnoddau Naturiol, nid ydym am reoli'r safleoedd hyn fel safleoedd wahân ond rydym am edrych arnynt yn hytrach fel rhan o'r dirwedd ehangach sy'n hanfodol i sicrhau ecosystemau cydnerth.

## **QC. Pam dim ond ar gyfer 2020/21 y mae yna arian?**

- A. Mae'r arian ar gael fel rhan o'r gyllideb ar gyfer 20/21. Bydd yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi cyfalaf i helpu i adfer safleoedd N2K ac i'n helpu hefyd i fynd i'r afael ag argyfwng natur wrth inni ddod allan o argyfwng y Covid. Mae trafodaeth wedi cychwyn ar raglen adfer tymor hir ar gyfer y dyfodol a'r arian angenrheidiol.

## **C5. Sut mae dweud a ydw i mewn ardal N2K?**

- A. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gallu dweud a ydych mewn ardal N2K neu ddigon agos i allu helpu i adfer safle N2K. E-bostiwch CNC ar [sitesactions@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:sitesactions@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk). Trafodwch eich syniadau gydag CNC mor fuan â phosibl yn y broses i wneud yn siŵr bod eich cynigion yn addas ar gyfer y safle dan sylw.

**C6. A fydd ffermwyr / perchenogion tir unigol yn cael gwneud cais am arian?**

- A. Byddant. Mae'r cynllun yn agored i fusnesau bach a chanolig, busnesau mawr, sefydliadau addysg neu ymchwil, elusennau, ffermwyr, coedwigwyr, mudiadau cymunedol a gwirfoddol (gan gynnwys pob mudiad anllywodraethol), gan gynnwys cymdeithasau perchenogion a choetiroedd cymunedol, ymddiriedolaethau, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau lleol.

**C7. A oes terfyn ar faint y ca i wneud cais amdano?**

- A. Oes – y swm lleiaf y cewch ymgeisio amdano yw **£10,000** a'r mwyaf yw **£4m**. Byddwn yn disgwyl i'r rhan fwyaf o'r ceisiadau fod rhwng £50,000 - £500,000 ond nid yw hyn yn eich rhwystro rhag gwneud cais ar gyfer prosiectau llai gwerth o leiaf £10,000 neu ar gyfer nifer o gydbrosiectau mawr gwerth mwy na £500,000. Bydd y grant ar gael ar gyfer holl gostau cymwys prosiect.

**C8. Sut mae dweud pa weithgareddau y galla i gael arian cyfalaf ar eu cyfer?**

- A. Mae nodiadau cyfarwyddyd CRhC – N2K yn esbonio'n fanwl beth sy'n gymwys a beth sydd ddim yn gymwys (Atodiad E). Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, holwch dîm grantiau Llywodraeth Cymru: [sustainablemanagementscheme@gov.wales](mailto:sustainablemanagementscheme@gov.wales)

**C9. Pryd ca i wybod bod fy nghais wedi llwyddo?**

- A. Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **11.59pm ar 10/08/2020\***. Yna caiff pob cais ei asesu yn unol â'r amodau a byddwn yn cysylltu ag ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau mis Medi.

**\*Noder bod cywiriad dyddiad yn y ddogfen er mwyn alinio â'r Ffurflen Ganllawiau a Cheisiadau.**

**C10. Rwyf mewn cynllun arall hefyd. A ga i wneud cais i'r cynllun hwn hefyd?**

- A. Cewch. Cyn belled nad ydych yn cael eich talu am gynnal yr un gweithgaredd o dan y cynllun arall a bod y prosiect yn bodloni amodau'r cynllun hwn.

**C11. Beth sy'n digwydd os na lwydda i i orffen y gwaith erbyn 31 Mawrth 2021?**

- A. Rhaid cwblhau pob rhan o brosiect a hawlio amdanynt erbyn 31 Mawrth 2021 er mwyn gallu cael grant. Ond os ydych chi'n cael trafferthion, cysylltwch â'r tîm grantiau cyn gynted ag y medrwch.

**C12. Ble galla i gael help gyda 'nghais?**

- A. K 4'Gall tîm grantiau Llywodraeth Cymru roi cyngor cyffredinol ichi ar y cynllun ar: [sustainablemanagementscheme@llyw.Cymru](mailto:sustainablemanagementscheme@llyw.Cymru). Am gyngor ar gynigion

**C13. A fydd y grant yn ariannu gwaith cyfalaf, gan gynnwys yr amser staff sy'n gysylltiedig â gwneud y gwaith hwn. A ellir cynnwys yr amser staff sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect a'r costau adennill llawn cysylltiedig yn y costau/gwariant uniongyrchol, neu a fyddai unrhyw ran o'r costau hyn yn cael ei chynnwys yn y 10% sydd ar gyfer costau rheoli/gweinyddu'r prosiect yn unig? Os yw rhywfaint o'r amser staff sy'n cael ei gynnwys yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith fel asesu, paratoi a dod o hyd i gontractwyr i wneud y gwaith, er enghraifft, fyddai hyn yn cael ei gynnwys yn y costau/gwariant uniongyrchol, neu yn y 10% ar gyfer rheoli a gweinyddu'r prosiect?**

- A.** O dan amodau'r grant, yr unig gostau staff y gellir eu hawlio yw'r rheini sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r ased sy'n cael ei wella neu ei greu. Ar sail adennill costau llawn, gallai'r rhain gynnwys hyd at 10% o gyfanswm cost y gwaith o greu'r ased i dalu swyddfa rheoli'r prosiect am reoli a goruchwylio'r gwaith (rheoli, caffael, anfonebu ac ati). Yn ogystal, byddem yn disgwyl, lle bo hynny'n briodol, i'r arbenigwyr mewnol o fewn y sefydliad a/neu drefniadau â phartneriaid fod ar gael i wneud y gwaith ar y tir fel cynnal astudiaethau dichonoldeb o'r safle, paratoi'r safle, cynnal arolygon o'r safle, casglu a dadansoddi data llinell sylfaen a chynnal prosesau sicrwydd ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau ac ati. Mewn achosion lle mae'r gwaith yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chreu neu wella'r ased, gellir ei gynnwys yn y costau staff sy'n gysylltiedig â chreu neu wella'r ased (rhaid darparu tystiolaeth ar ffurf taflenni amser). Rhaid ichi sicrhau, yn yr achosion hyn, eich bod yn dangos gwerth am arian a bod yr amser sy'n cael ei ddefnyddio'n deg yn unol â chyfartaleddau'r farchnad a methodolegau eraill sy'n benodol i'r sector. **Lle bynnag y bo modd**, ac yn bendant lle mae'r arbenigedd yn dod o'r tu allan i'r sefydliad neu ei drefniadau â phartneriaid, **rhaid i'r prosiect gontractio gwaith drwy broses gaffael deg a agored** (e.e. gwaith tir a thirweddu caled, plannu coed, gwaith cryfhau glannau afon, sicrwydd asedau annibynnol ac ati). Os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol ynghylch cymhwysedd gweithgareddau mewn perthynas â chanllawiau'r cynllun neu ddyraniadau cyfalaf dylech geisio rhagor o gyngor drwy'r cyfeiriadau e-bost [sitesactions@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:sitesactions@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) a/neu [sustainablemanagementscheme@gov.wales](mailto:sustainablemanagementscheme@gov.wales).

**C14 A gaiff un sefydliad gyflwyno mwy nag un cais? Sylweddolir y gall brosiectau, ac y dylent pan fo hynny'n bosibl, gyflawni mwy nag un nod y cynllun, ond mae'r cwestiwn hwn yn berthnasol os bydd gan sefydliad fwy nag un prosiect, nad oedd yn bosibl eu cyfuno, er gwaethaf y ffaith y byddai gwahanol brosiectau yn cyflawni nifer o nodau o bosibl.**

- A.** Gall un sefydliad gyflwyno mwy nag un cais neu fod yn rhan o fwy nag un cais cydweithredol. Yn y sefyllfaoedd hyn, ni ddylai'r gwaith o fewn y prosiectau ddyblygu ei gilydd – yn enwedig o fewn yr un lleoliad. Mae peidio dyblygu ar sawl prosiect ar yr un lleoliad hefyd yn bwysig iawn wrth reoli prosiect gan y gallai hyn olygu y broblem bosibl o ariannu swyddi ddwywaith. Mae'n rhaid i sefydliadau fod yn benodol iawn o ran staff wrth iddynt reoli nifer o brosiectau. Dyna pam yr ydym yn rhoi cyngor y dylai sefydliadau neu'r rhai sy'n cydweithredu ar sawl safle ystyried gwneud un cais ar gyfer prosiect. Gallai hyn ei gwneud yn haws i gyflwyno tystiolaeth ar gyfer un swyddfa prosiect ac arbedion maint wrth gaffael a chontractio.